A487 Pont Newydd dros yr Afon Dyfi – Cau'r A493: Cwestiynau

Cyffredin Beth sydd yn digwydd?

Fel rhan o'r Gwelliannau i Bont Newydd Dyfi, nod y gwaith adeiladu yw gwella'r draenio er mwyn amddiffyn rhes o eiddo rhestredig Gradd 2 (Bythynnod Dyfi) rhag achosion o lifogydd yn y dyfodol. Mae angen i'r gwaith hwn ddigwydd yn gynnar ym mis Chwefror 2024.

Mae angen cau'r A493 i bob traffig y ffordd am oddeutu 100 metr ar hyd y tu blaen i Fythynnod Dyfi ym Mhont-ar-Ddyfi am gyfnod o 30 diwrnod er mwyn cyflawni'r gwaith hwn yn ddiogel. Bydd mynediad i gerddwyr a beicwyr yn parhau.

Bydd Pont newydd yr A487 dros yr Afon Dyfi yn agored i draffig pan fydd y ffordd wedi cau.

Contractwyr Alun Griffiths sydd wedi datblygu'r rhaglen adeiladu fel rhan o'r contract adeiladu ar gyfer y Bont newydd dros yr Afon Dyfi ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynlluniau wedi'u trafod â'r cyhoedd a rhanddeiliaid a'r gwasanaethau brys, ac mae meddygfeydd ac ysgolion lleol wedi cael gwybod am y gwaith.

Bydd y ffordd yn cau o ddydd Sadwrn 10 Chwefror 2024. Disgwylir y bydd yr holl waith angenrheidiol yn cael ei gwblhau cyn pen 30 diwrnod (gan ddibynnu ar y tywydd).

Pam mae angen cau'r A493?

Y rheswm dros gau'r ffordd yn llwyr i draffig yw oherwydd bod yr A493 o flaen y bythynnod yn gul iawn ac yn gyfyng gydag amryw o wasanaethau cyfleustodau cyhoeddus tanddaearol, gan gynnwys prif bibell ddŵr bwerus, a cheblau trydan a chyfathrebu.

Mae hyn yn cyfyngu ar y llwybr sydd ar gael ar gyfer y gwaith draenio at ganol y ffordd. Mae angen cloddio'n ddwfn er mwyn gwneud y gwaith i wella draenio ac oherwydd mesurau diogelwch i amddiffyn y gweithlu a'r cyhoedd yn ystod y gwaith cloddio, mae angen cau'r ffordd yn gyfan gwbl.



Am ba hyd fydd yr A493 wedi cau?

Bydd yr A493 wedi cau am gyfnod o 30 diwrnod o 10 Chwefror 2024 tan ddydd Llun 11 Mawrth 2024. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i gwtogi'r amserlen hon ac agor yr A493 yn gynt.

A fydd y Bont newydd dros yr Afon Dyfi yn agored i draffig pan fydd yr A493 wedi cau?

Bydd. Bydd y Bont newydd dros yr Afon Dyfi yn agored i draffig cyn i'r ffordd gau a bydd yn agored pan fydd y ffordd wedi cau.

A fydd modd i gerddwyr a beicwyr deithio drwodd pan fydd y ffordd wedi cau?

Bydd. Bydd cerddwyr a beicwyr yn cael mynediad drwy'r cyfan.

A all cerbydau brys deithio drwodd pan fydd yr A493 wedi cau?

Na, ni fydd modd i gerbydau brys deithio drwy'r ffordd sydd wedi cau ac mae'r gwasanaethau brys wedi cael gwybod am hyn.

Beth sy'n cael ei wneud i leihau'r effaith ar wasanaethau bysiau ysgol?

I gwblhau'r gwaith yn y cyfnod o 30 diwrnod ac i leihau'r effaith ar deithio ar gyfer ysgol, bydd angen i'r gwaith ddigwydd yn ystod y gwyliau hanner tymor ym mis Chwefror.

Bydd gwasanaeth bws ar gyfer y X29/ G21 hefyd ar waith pan fydd y ffordd wedi cau. Fel rhan o'r gwasanaeth hwn, bydd gofyn i deithwyr fynd ar y bws a dod oddi arno ger y gwaith ffordd a cherdded ychydig i fynd ar fws arall ar yr ochr arall

i’r gwaith ffordd i barhau â'r daith. Mae manylion y gwasanaeth newydd ar gael yn: https://lloydscoaches.com/serviceupdates/,Gwynedd transport and Traveline websites.

Beth yw oriau gwaith y contractwyr pan fydd y ffordd wedi cau?

Bydd y contractwyr yn gweithio rhwng 7am a 6pm saith diwrnod yr wythnos pan fydd y ffordd wedi cau. Bydd hyn yn eu caniatau i gwblhau’r gwaith cyn gynted â phosibl a lleihau effaith y tywydd ar y rhaglen drwy weithio ar adegau pan mae’r tywydd yn well. Ni fydd unrhyw waith yn digwydd gyda'r nos er parch i breswylwyr Bythynnod Dyfi.

Beth allaf i ei wneud i leihau unrhyw darfu ar fy nheithiau?

Bydd gwasanaeth bws ar gyfer y X29/ G21 hefyd ar waith pan fydd y ffordd wedi cau. Fel rhan o'r gwasanaeth, bydd gofyn i deithwyr fynd ar y bws a dod oddi arno ger y gwaith ffordd a cherdded ychydig bach i fynd ar fws arall ar yr ochr arall i’r gwaith ffordd i barhau â'r daith. Mae manylion y gwasanaeth newydd ar gael yn: https://lloydscoaches.com/serviceupdates/,Gwynedd transport and Traveline websites.

Dull teithio arall i chi ei ystyried yw defnyddio trenau i deithio, a hynny drwy ddefnyddio gwasanaethau o Dywyn neu Aberdyfi i Fachynlleth.
Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnig disgowntiau i deithwyr sy’n teithio ar y rheilffordd Cambrian, yn cynnwys cerdyn rheilffordd Cambrian sy’n tynnu traean oddi ar bris teithio i ddefnyddwyr. Cewch ragor o wybodaeth yn Railcards | Railcard discounts and offers | Transport for Wales (tfw.wales). Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynghori pobl i wirio cyn teithio bob tro.Before your journey | TfW

Gwasanaeth Tacsi - Bydd gwasanaeth tacsi dychwelyd am ddim ar gael rhwng y ffordd sydd wedi cau a Machynlleth i'r rheini sydd angen cymorth meddygol, dim ond o wasanaethau sydd wedi’u lleoli yn nhref Machynlleth. Lloyds Coaches fydd yn rheoli hyn. Bydd y gwasanaeth ar gael rhwng 8am a 6pm o ddydd llun i ddydd Gwener drwy gydol y cyfnod pan fydd y ffordd wedi cau.

A fyddaf yn gallu gyrru at y gwaith ffordd, parcio fy nghar, a cherdded i Fachynlleth pan fydd y ffordd wedi cau?

Byddwch. Bydd mannau parcio pwrpasol ar gael ar y naill ochr i’r lonydd a fydd ar gau (i’r dwyrain ac i’r gorllewin i Bont-ar-Ddyfi), lle all y cyhoedd barcio cerbydau a cherdded drwy’r safle.

Pa gefnogaeth ariannol sydd ar gael i bobl a busnesau yr effeithir arnynt drwy gau'r A493?

Nid oes iawndal statudol ar gyfer pobl na busnesau yr effeithir arnynt gan y ffordd wedi cau. Gwnaethpwyd pob ymdrech i leihau'r tarfu ar deithiau. Mae trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer gwasanaeth bws arall a gwasanaeth tacsi mewn argyfwng i leihau unrhyw darfu ar eich teithio. Mae prisiau rhatach ar gyfer teithio ar y Rheilffordd Cambrian ar gael i'r cyhoedd, ac mae hwn yn opsiwn teithio arall sy'n cysylltu Tywyn ag Aberystwyth (a phob gorsaf rhyngddynt).

Pa lwybrau gwyriad sydd ar waith pan fydd yr A493 wedi cau ym Mhont-ar-Ddyfi?

Proposed Diversion Route (A493 Closure Machynlleth)

Bydd y llwybrau gwyriad ag arwyddion hyn ar waith pan fydd y ffordd wedi cau:

I'r rhai sy'n teithio o'r gorllewin – teithiwch ar hyd yr A493 am 31 milltir drwy Aberdyfi, Tywyn, Peniarth, Llwyngwril i Ddolgellau. Trowch i'r dde ar yr A470 am 4 milltir. Trowch i'r dde ar yr A487 yn Cross Foxes, ac ewch tua'r de drwy Gorris tuag at Fachynlleth am 22 milltir. Yn Ffriddgate (i'r gogledd o Fachynlleth), teithiwch ar hyd yr A487/A493 tuag at Aberdyfi am 0.5 milltir.

I'r rhai sy'n teithio o'r dwyrain – teithiwch ar hyd yr A487 tua'r gogledd am Ddolgellau drwy Gorris am 23 milltir. Yn Cross Foxes, trowch i'r chwith ar yr A470 tuag at Ddolgellau am 4 milltir. Yn Nolgellau, trowch i'r chwith ar yr A493 drwy Lwyngwril, Peniarth, Tywyn ac Aberdyfi tuag at Fachynlleth am 31 milltir.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru yn Adran Newyddion gwefan Griffiths Dyfi A487 Pont Dyfi Newydd – Cymuned Griffiths